# CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Elliot Penn (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Anthony Ernest, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci-Williams, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

414 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

415 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R.M. Birch, R. Fisher, S.D. Perkes ac R.R. Thomas.

416 DATGANIADAU BUDDIANT –

Dywedodd y Cynghorydd N.P. Hodges ddiddordeb yn Eitem Agenda Rhif 6 – Rhybudd o Gynnig – Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi, sef bod ei wraig yn Aelod o'r Bwrdd Treftadaeth. Roedd y buddiant yn fuddiant personol ar hyn o bryd ac nid oedd yn rhagfarnu gan nad oedd unrhyw gytundebau wedi dod i law eto.

417 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2024 fel cofnod cywir.

418 CYHOEDDIADAU –

Rhoddodd y Maer wybod i'r Cyngor am nifer o ymrwymiadau yr oedd wedi'u mynd iddynt ers y cyfarfod diwethaf, gan ddiolch i bawb am wneud iddo deimlo bod croeso iddo yn y digwyddiadau. Dywedodd ei fod wedi mynd i ddigwyddiadau ar gyfer agor Gorsaf Bad Achub newydd Dociau'r Barri, dathlu 25 mlynedd ers agor y Neuadd Arloesi, dathlu Gwasanaeth Diwrnod y Llynges Fasnachol yn y Swyddfeydd Dinesig, cymryd rhan yn nathliadau Onam Cymdeithas Les Malayali, agor yr Arddangosfa Ffotograffig gyntaf gan Malcolm Downs, mynd i seremoni goffa Brwydr Prydain RAFA ym Mharc Alexandra Penarth, noson Gwobrau Sgowtiaid Arglwydd Faer Caerdydd a 50fed Arddangosfa Grŵp Celfyddydau Baruc, agor Gardd Goffa Atgofion Amhrisiadwy Tŷ Hafan yn y Knap yn y Barri, mynd i Eglwys y Tabernacl ym Mhenarth ar gyfer dathliadau hanner canmlwyddiant Band Pres Bro Morgannwg a dathliadau dinesig Maer Tref Penarth a Chadeirydd Cynghorau Cymuned Dinas Powys.

419 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol, gan nodi bod dau gwestiwn a nodwyd yn y rhaglen wedi eu tynnu’n ôl, a’u hateb fel y dangoswyd, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai 2010.

(i) **Cwestiwn gan Mr. L. Jones**

A oes gan y Cyngor unrhyw edifeirwch neu ymddiheuriadau am gau traeth Aberogwr i ymdrochwyr am bron 3 wythnos ym mis Mehefin oherwydd bod CNC yn datgan "sefyllfa annormal", er na daethpwyd o hyd i lefelau annormal o facteria/feirysau? A wnaeth y Cyngor gwyno wrth CNC am ei arafwch wrth dderbyn eu camgymeriad pan oedd masnach twristiaid yn dioddef o ganlyniad i’w datganiad 'annormal' hir a diangen?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Nid yw'r Cyngor yn difaru am godi hysbysiadau rhybuddio pan ddatganodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sefyllfa annormal ar Draeth Aberogwr, ac ni fyddwn yn ymddiheuro am geisio amddiffyn iechyd y cyhoedd. Roedd canlyniadau'r samplau a ddarparwyd i'n swyddogion yn syth ar ôl datgan y Sefyllfa Annormal yn dangos lefelau eithriadol o uchel o E.coli, mwy na 1,000 o unedau ffurfio cytrefi fesul mililitr.

Ar sail yr wybodaeth hon ac i leihau risgiau iechyd y cyhoedd i unrhyw ymdrochwyr posibl, codwyd arwyddion ddydd Gwener 25 Mai i rybuddio ymdrochwyr i beidio â nofio yn y môr, oherwydd y digwyddiad llygredd datganedig parhaus, ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Reoliad 12 (5c) Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013. Yn ogystal, mae Rheoliad 12 (5c) yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol gymryd unrhyw fesurau sy'n briodol yn ei farn ef i atal ymdrochwyr rhag dod i gysylltiad â risgiau iechyd a nodwyd neu a dybir. Yr wybodaeth oedd ar gael i'r Cyngor ar y pryd oedd nad oedd hwn yn fân ddigwyddiad yng Ngwaith Triniaeth Pen-y-bont, ac mae'r canlyniadau samplu a ddarparwyd ar y pryd yn cefnogi

hyn.  Gwnaeth y Cyngor ei benderfyniad, a oedd yn cydymffurfio'n llwyr â'r Rheoliadau Dŵr Ymdrochi, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a lleihau'r risg y byddai unrhyw ymdrochwyr yn mynd yn ddifrifol wael.   Rhaid nodi nad oedd unrhyw un wedi'i atal ar unrhyw adeg rhag mynd yn ffisegol i'r traeth, a chyn gynted ag y codwyd y sefyllfa annormal gan CNC, tynnwyd yr arwyddion ychwanegol.  Byddwn yn eich atgoffa, oherwydd dosbarthiad gwael y dŵr ymdrochi yn Aberogwr o ganlyniad i samplau 2023, ein bod eisoes wedi codi arwyddion yn rhybuddio rhag ymdrochi yn ystod tymor ymdrochi 2024 yn Aberogwr, er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan y Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi

Yn ystod y datganiad, roedd swyddogion o'r Cyngor yn parhau i drafod â chydweithwyr o CNC, a mynegwyd pryderon gyda nhw ynghylch faint o amser yr oedd yr ymchwiliadau'n ei gymryd, er bod ein swyddogion technegol yn cydnabod cymhlethdod y materion a fu'n destun yr ymchwiliadau.  Mae ymchwiliadau'n parhau i ffynonellau llygredd yn y dalgylch oherwydd dosbarthiad gwael Aberogwr a byddwn yn aros am ganlyniadau'r ymchwiliadau hyn.

420 YSTYRIED Y RHYBUDD O GYNNIG A GANLYN [A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR DR. I.J. JOHNSON AC M.J. HOOPER] –

Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig isod, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Dr. Johnson ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Hooper yn y cyfarfod.

"**Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi**

Mae'r Cyngor yn nodi â phryder yr oedi o ran cadarnhad o £20m o gyllid gwella ar gyfer y Barri gan Lywodraeth y DU.

Mae'r Cyngor yn cytuno i ysgrifennu at Ganghellor Llywodraeth y DU a Gweinidogion perthnasol y Llywodraeth yn gofyn am benderfyniad cyflym a chadarnhaol i gadarnhau'r cyllid hwn fel y gellir ei ddyrannu a'i ddefnyddio ar gyfer gwella'r Barri, fel y bwriadwyd yn wreiddiol."

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson, wrth gyflwyno ei Gynnig, fod Llywodraeth Cymru wedi addo £20m ar gyfer adfywio Tref y Barri a bod cais y Fro wedi'i gyflwyno ond nad oedd ymateb wedi dod i law hyd yma.  Roedd y Cynnig yn gofyn i'r Gweinidog adolygu a mynd i'r afael â'r mater gan y byddai'r Cynghorydd Dr. Johnson yn hoffi gweld y buddsoddiad yn dod i mewn i'r Sir, gan gyfeirio at ddirwasgiadau 2008 a 2009 pan gollodd Canol Tref y Barri lawer o'i siopau.  Dywedodd fod banciau a chymdeithasau adeiladu wedi cynyddu eu costau rhedeg a bod cyfraddau domestig wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'i bod yn bwysig i'r dref dderbyn y buddsoddiad yr oedd yn ei haeddu.

Dywedodd y Cynghorydd Cowpe fod pethau'n gwaethygu yn ei barn hi, nid yn gwella.  Roedd nifer y siopau oedd wedi cau yn Heol Holltwn wedi cynyddu am nifer o resymau, gyda'r prif un o ganlyniad i doriadau gan Lywodraeth Cymru.  Roedd y cynnydd mewn siopa ar-lein wedi effeithio ar ddarpariaeth yng nghanol trefi ac roedd yn bwysig bod y Barri'n derbyn y buddsoddiad yr oedd yn ei haeddu.  Wrth dderbyn bod arian yn brin, dywedodd fod yn rhaid, felly, i'r arian ddod o ffynonellau allanol.

Dywedodd yr Arweinydd, mewn ymateb, fod y cyhoeddiad wedi’i wneud gan Lywodraeth y DU, y byddai'r Barri yn derbyn £2m am y 10 mlynedd nesaf. Un o egwyddorion sylfaenol y cynllun oedd pennu blaenoriaethau a gwella cysylltedd. Doedd dim penderfyniad ar hyn o bryd, doedd dim byd wedi ei wrthod a dywedodd mai hi oedd yr unig berson oedd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod yn dilyn y cyhoeddiad, gyda'r papurau newydd yn camddyfynnu'r hyn a oedd wedi cael ei ddweud. Roedd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd wedi derbyn llythyr ynglŷn â'r mater ac, ynghyd ag ASau lleol a'r AoS, byddent yn parhau i hyrwyddo'r gwaith partneriaeth. O ganlyniad i rai o'r sibrydiadau i’r cyfryngau a oedd wedi bod yn gamddyfyniadau, roedd hi hefyd wedi derbyn nifer o alwadau gan rai o drefi'r DU ynghylch y mater yn nodi ei bod yn bwysig cyhoeddi gwybodaeth gywir nid camwybodaeth ac achubodd ar y cyfle i dawelu meddyliau'r Aelodau y byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Partneriaeth Annibynnol y Barri.

Yn dilyn hynny, cyflwynodd yr Arweinydd Welliant i'r Cynnig, a eiliwyd gan y Cynghorydd Brooks fel isod:

"Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod cyflwyniadau ar gyfer y Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi wedi’u hatal ac mae’n aros am gadarnhad o’r amserlenni diwygiedig ar gyfer derbyn cynigion ar gyfer y Cynlluniau Hirdymor.

Mae'r Cyngor yn penderfynu parhau â'i rôl fel Ysgrifenyddiaeth i'r Cadeirydd a'r Bwrdd Partneriaeth annibynnol ac yn y cyfamser bydd yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo gwaith y Bartneriaeth i swyddogion polisi a chynrychiolwyr etholedig ar bob lefel."

Dywedodd y Cynghorydd Franks, mewn ymateb, ei bod bob amser yn anodd deall Diwygiad yn llawn a meddwl tybed a oedd yn ychwanegiad neu’n fater o ddileu. Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson nad oedd yn gallu gweld y gwahaniaeth ymarferol yn y Diwygiad i'r Cynnig a dywedodd y Cynghorydd Carroll ei fod o'r farn mai'r unig effaith y gallai'r Diwygiad ei chael fyddai tynnu sylw oddi wrth y Llywodraeth Lafur newydd a allai ddiddymu'r cynllun. Teimlai fod cynnig y Cynghorydd Dr. Johnson yn glir ac ni allai weld pam roedd angen ategu hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper hefyd nad oedd yn deall y rhesymeg dros y Diwygiad. Yn ei farn ef, roedd yn methu'r pwynt ynghylch pwy oedd yn gwneud y penderfyniad ar y cyllid ac y dylid cysylltu â nifer mawr o bobl, er enghraifft dylid ysgrifennu at Rachel Reeves yn San Steffan.

Dywedodd y Cynghorydd Hodges, pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â rhoi'r arian, eu dewis nhw fyddai hynny ac unwaith eto fod y Cynnig, yn ei farn ef, yn glir ac fe gytunodd â'r awgrym y dylid anfon llythyr at y Canghellor a'r Gweinidogion. Nid oedd am aros mwyach, roedd am gael yr arian ac fel Cyngor, dywedodd y dylem fod yn dangos ein pryder.

Dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby ei bod yn croesawu'r Diwygiad a oedd yn ail-bwysleisio ymrwymiad y Cyngor i weithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth a bod y Diwygiad yn bwysig oherwydd ei fod yn ymrwymiad cadarnhaol i gydweithio.

Dywedodd y Cynghorydd Champion nad oedd Cynnig y Cynghorydd Dr. Johnson yn cyfeirio at y ffaith na fyddai'r Cyngor am weithio gyda'r Bwrdd – roedd yn cyfeirio at yr oedi ac nid oedd yn gweld pam roedd angen y diwygiad.

Dywedodd y Cynghorydd Perry y byddai wedi hoffi gweld y Diwygiad cyn iddo gael ei ystyried gan y byddai hynny wedi cynorthwyo'r ddadl yn hytrach na chael ei ddatguddio’n ddirybudd i’r Cyngor yn y cyfarfod.

Fodd bynnag, rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r Cyngor am y gweithdrefnau yn y Cyfansoddiad y gallai unrhyw un wneud diwygiad ar unrhyw adeg, a bod y Cyfansoddiad yn caniatáu ar gyfer y ddarpariaeth hon.

Roedd y Cynghorydd Cowpe hefyd o'r farn y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i'r Diwygiad gael ei ddileu, ond darllenwyd y Diwygiad yn uchel ychydig o weithiau cyn cael ei roi i'r bleidlais.

Ailadroddodd y Prif Weithredwr y ffaith bod Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu i ddiwygiadau gael eu gwneud yn y cyfarfod ac o'r herwydd cynhaliwyd pleidlais ar y Diwygiad uchod fel a ganlyn:

| **Aelodau** | **Canys** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|---|
| Anne Asbrey | | x | |
| Julie Aviet | x | | |
| Gareth Ball | x | | |
| Bronwen Brooks | x | | |
| Gillian Bruce | | x | |
| Ian Buckley | x | | |
| Lis Burnett | x | | |
| Samantha Campbell | | x | |
| George Carroll | | x | |
| Christine Cave | | x | |
| Charles Champion | | x | |
| Janice Charles | | x | |
| Millie Collins | | x | |
| Marianne Cowpe | | x | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pamela Drake | x | | |
| Anthony Ernest | | x | |
| Christopher Franks | | x | |
| Wendy Gilligan | x | | |
| Russell Godfrey | | x | |
| Emma Goodjohn | x | | |
| Ewan Goodjohn | x | | |
| Stephen Haines | | x | |
| Howard Hamilton | x | | |
| Sally Hanks | x | | |
| William Hennessy | | x | |
| Nic Hodges | | x | |
| Mark Hooper | | x | |
| Catherine Iannucci-Williams | x | | |
| Gwyn John | x | | |
| Dr. Ian Johnson | | x | |
| Susan Lloyd-Selby | x | | |
| Belinda Loveluck-Edwards | | | |
| Julie Lynch-Wilson | x | | |
| Kevin Mahoney | | x | |
| Naomi Marshallsea | x | | |
| Michael Morgan | x | | |
| Jayne Norman | x | | |
| Helen Payne | x | | |
| Elliot Penn | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ian Perry | | | x |
| Joanna Protheroe | x | | |
| Ruba Sivagnanam | x | | |
| Carys Stallard | x | | |
| Neil Thomas | x | | |
| Steffan Wiliam | | x | |
| Margaret Wilkinson | x | | |
| Eddie Williams | x | | |
| Mark Wilson | x | | |
| Nicholas Wood | | x | |
| **CYFANSWM** | **27** | **20** | **1** |

Ar ôl cymeradwyo’r Diwygiad, cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y Diwygiad gyda’r Cynghorydd Godfrey yn dweud yn y lle cyntaf fod y Cyngor wedi colli'r farchnad yn y Barri a oedd wedi bod o ganlyniad i'r ffaith ei fod yn rhy ddrud i stondinwyr aros ac y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r costau er mwyn i bobl gynnal presenoldeb yn y dref.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper y byddai’n cefnogi’r Diwygiad er bod y Cynnig gwreiddiol wedi’i golli ond ni fyddai'r drafodaeth wedi digwydd pe na bai'r Cynghorydd Dr. Johnson wedi cyflwyno'r Cynnig gwreiddiol, ond roedd yn bwysig i'r dref dderbyn yr arian.

Dywedodd y Cynghorydd Hodges hefyd nad oedd ei blaid wedi cael ei gwysio ond y byddai hefyd yn cefnogi'r Diwygiad.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll, er ei fod yn dweud bod y Cynnig yn glir, y dylid cyflwyno sylwadau cryf i Lywodraeth y DU.  Roedd angen yr arian er mwyn i'r Barri wneud gwelliannau i'r dref a'i gwneud yn lle gwell i bawb.  Dywedodd fod y Llywodraeth flaenorol wedi cyflwyno'r cyllid a'i fod yn siomedig nad oedd y Cyngor yn adeiladu ar hyn, ond y byddai'n dal i gefnogi'r Diwygiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Payne at y 14 mlynedd o gyni Torïaidd a dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson, o ran sylwadau'r Arweinydd ynghylch gwybodaeth yr oedd hi a'r Dirprwy Arweinydd wedi'i derbyn, gofynnodd a ellid darparu'r wybodaeth honno i bob Aelod, ac yn dilyn hynny daeth y Diwygiad yn Gynnig o Sylwedd ac yna pleidleisiwyd drosto fel isod:

| Aelodau | Canys | Yn Erbyn | Ymatal |
|---|---|---|---|
| Anne Asbrey | x | | |
| Julie Aviet | x | | |
| Gareth Ball | x | | |
| Bronwen Brooks | x | | |
| Gillian Bruce | x | | |
| Ian Buckley | x | | |
| Lis Burnett | x | | |
| Samantha Campbell | x | | |
| George Carroll | x | | |
| Christine Cave | x | | |
| Charles Champion | x | | |
| Janice Charles | x | | |
| Millie Collins | x | | |
| Marianne Cowpe | x | | |
| Pamela Drake | x | | |
| Anthony Ernest | | | x |
| Christopher Franks | x | | |
| Wendy Gilligan | x | | |
| Russell Godfrey | x | | |
| Emma Goodjohn | | | |
| Ewan Goodjohn | x | | |
| Stephen Haines | x | | |
| Howard Hamilton | x | | |
| Sally Hanks | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| William Hennessy | x | | |
| Nic Hodges | x | | |
| Mark Hooper | x | | |
| Catherine Iannucci-Williams | x | | |
| Gwyn John | x | | |
| Dr. Ian Johnson | x | | |
| Susan Lloyd-Selby | x | | |
| Belinda Loveluck-Edwards | x | | |
| Julie Lynch-Wilson | x | | |
| Kevin Mahoney | x | | |
| Naomi Marshallsea | x | | |
| Michael Morgan | x | | |
| Jayne Norman | x | | |
| Helen Payne | x | | |
| Elliot Penn | x | | |
| Ian Perry | x | | |
| Joanna Protheroe | x | | |
| Ruba Sivagnanam | x | | |
| Carys Stallard | x | | |
| Neil Thomas | x | | |
| Steffan Wiliam | x | | |
| Margaret Wilkinson | x | | |
| Eddie Williams | x | | |
| Mark Wilson | x | | |
| Nicholas Wood | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **47** | **0** | **1** |

PENDERFYNWYD – Derbyn y Gwelliant.

Rheswm dros y penderfyniad

Yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod a phleidlais wedi'i chofnodi.

421 YSTYRIED Y RHYBUDD O GYNNIG A GANLYN [A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR DR. I.J. JOHNSON AC M.J. HOOPER] –

Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig isod, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Dr. Johnson ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Hooper yn y cyfarfod.

**Lwfans Tanwydd Gaeaf**

Mae’r Cyngor yn nodi â phryder y penderfyniad gan Lywodraeth y DU i gyfyngu’r Lwfans Tanwydd Gaeaf i’r pensiynwyr hynny sy’n derbyn Credyd Pensiwn yn unig, a’r effaith y bydd hyn yn ei chael ar lawer o bobl hŷn sy’n agored i niwed yn y Fro sy’n gymwys ond nad ydynt yn cael Credyd Pensiwn neu ychydig uwchlaw'r trothwy.

Mae’r Cyngor yn condemnio’r cynigion hyn ac yn cytuno i ysgrifennu at Ganghellor Llywodraeth y DU, yn mynnu ei bod yn atal y toriadau i’r Lwfans Tanwydd Gaeaf.

Enillodd Llafur y mwyafrif i gyfyngu ar Lwfans Tanwydd y Gaeaf ond ni wnaethant egluro’n fanwl pa fath o newid a beth oedd y cynlluniau i gael gwared ar y Lwfans Tanwydd Gaeaf. Byddai 400,000 o aelwydydd ym Mro Morgannwg ar eu colled. Yn sicr, roedd angen gwneud penderfyniadau anodd ond pam dylen nhw effeithio ar bobl gyffredin? Dylen nhw hefyd effeithio ar y rhai cyfoethog. Roedd y Cyngor wedi clywed yn ddiweddar am y gwaith da a wnaed gan grwpiau cymunedol ynghylch mannau cynnes, ond roedd y Llywodraeth Lafur bellach yn bwriadu gwneud pethau'n waeth. Dylai'r Llywodraeth Lafur ddeall bod hyn yn gamgymeriad. Nid oedd hyn yn newid yr oedd pobl yn ei ddymuno nac yn ei ddisgwyl.

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd Welliant arfaethedig i'r Cynnig, wedi'i eilio gan yr Arweinydd, fel yr isod:

"Mae'r Cyngor yn nodi bod y sefyllfa ariannol drychinebus y mae llywodraeth newydd y DU wedi'i hetifeddu wedi gorfodi iddi weithredu ar unwaith, gan gynnwys canslo cynlluniau cyfalaf, a newid taliadau tanwydd gaeaf o daliad cyffredinol i daliad targedig. Mae'r newid yn golygu na fydd llawer o bensiynwyr yn derbyn taliadau tanwydd gaeaf y gaeaf hwn.

Mae'r Cyngor hwn yn annog Llywodraeth newydd y DU i adfer y taliadau tanwydd gaeaf yn llawn i gefnogi ein trigolion hŷn neu i gymryd camau eraill fel y rhai a amlinellwyd yn flaenorol pan fydd sefyllfa ariannol y DU yn caniatáu.

**'Amlinellwyd yn flaenorol**

- Ymrwymo i ymgyrch leol i annog trigolion y Fro i wneud cais am gredyd pensiwn a chymorth arall sydd ar gael.
- Galw ar bob lefel arall o'r llywodraeth i gynnal ymgyrch genedlaethol i annog mwy o bobl i hawlio'r credyd pensiwn.
- Ysgrifennu at y Canghellor i geisio sicrwydd y bydd y pensiynwyr hynny y mae eu hincwm yn disgyn yn agos at y trothwy yn derbyn cymorth yn ôl yr angen drwy gyfnod y gaeaf sydd i ddod."

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod camreoli economaidd a thrychinebus Llywodraeth flaenorol y DU wedi gadael y DU gyda thwll du o dros £22 biliwn, bod camau di-hid a gymerwyd gan y Llywodraeth Dorïaidd trwy'r Prif Weinidogion Boris Johnson a Liz Truss wedi cyfrannu at yr argyfwng costau byw ac nad oedd y Llywodraethau blaenorol yn cynorthwyo pobl i hawlio credydau pensiwn. Byddai'r Cyngor yn ymrwymo i ymgyrch leol i annog preswylwyr i wneud cais am gredydau pensiwn yn galw ar ymgyrch genedlaethol o ymwybyddiaeth i gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais am gredydau pensiwn ac i weithio gyda Gweinidogion trwy hyn.

Roedd y Cynghorydd Carroll o'r farn bod y Diwygiad yn seiliedig ar gelwyddau yr oedd y Llywodraeth Lafur wedi bod yn eu lledaenu. Dywedodd y Cynghorydd Cowpe ei bod hi'n bwysig awgrymu graddfa symudol i bobl oedd wedi colli budd-dal pensiwn.

Yn dilyn trafodaethau yn ystod y cyfarfod ynghylch a wnaeth y Diwygiad negyddu'r Cynnig mewn gwirionedd, dywedodd y Cynghorydd Burnett nad oedd yn ei negyddu, ond yn ychwanegu ato. Roedd y rhewi parhaus ar drothwyon treth a gymerwyd gan y Llywodraeth Dorïaidd wedi bod yn anodd iawn i bawb gan ei bod yn bwysig bod pasbort i fudd-daliadau eraill yn cael ei wneud.

Dywedodd y Cynghorydd Mahoney ei fod yn cymryd sylw o gyflwr cyllid y DU gan y Ceidwadwyr ond bod y Llywodraethau Llafur a Cheidwadol o blaid rhoi biliynau i wledydd tramor pan oedd pobl y wlad ei hun yn ei chael hi'n anodd. O ganlyniad, roedd cyfyngiad Lwfans Tanwydd y Gaeaf wedi effeithio ar ryw 10 miliwn o bensiynwyr. Os oedd gan bobl hawl i hawlio arian, dylid rhoi'r arian yn awtomatig, nid mynnu eu bod yn gwneud cais amdano gan ei fod yn siŵr bod yr wybodaeth yr oedd ei hangen i gyflwyno ceisiadau eisoes ar gael. Dywedodd ei fod wedi siarad â nifer o breswylwyr a bod pawb yr oedd wedi siarad â nhw yn dirmygu’r cynnig i gyfyngu ar Lwfans Tanwydd y Gaeaf.

Teimlai'r Cynghorydd Perry y dylai'r Diwygiad fod wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw i roi'r wybodaeth i'r Aelodau yn gynt yn y broses i wneud penderfyniad gwybodus.

Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod gormod o amser yn cael ei dreulio ar sgorio pwyntiau gwleidyddol, a nododd ei bod yn bwysig helpu'r rhai oedd ar gredydau pensiwn i'w cael nhw gyda gweithdrefn briodol a ddatblygwyd i dargedu pobl. Dywedodd hefyd y byddai'n ymatal rhag pleidleisio.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper y dylai'r Llywodraeth Lafur fod wedi trethu'r pensiynwyr cyfoethocaf yn hytrach na brifo pensiynwyr. Dywedodd y Cynghorydd

Godfrey pe na bai pensiynwyr ar yr isafswm cyflog, yna ni fyddai'r drafodaeth yn digwydd.

Cynhaliwyd pleidlais a gofnodwyd ar y Gwelliant uchod fel a ganlyn:

| **Aelodau** | **Canys** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|---|
| Anne Asbrey | | x | |
| Julie Aviet | x | | |
| Gareth Ball | x | | |
| Bronwen Brooks | x | | |
| Gillian Bruce | | x | |
| Ian Buckley | x | | |
| Lis Burnett | x | | |
| Samantha Campbell | | x | |
| George Carroll | | x | |
| Christine Cave | | x | |
| Charles Champion | | x | |
| Janice Charles | | x | |
| Millie Collins | | x | |
| Marianne Cowpe | | x | |
| Pamela Drake | x | | |
| Anthony Ernest | | x | |
| Christopher Franks | | x | |
| Wendy Gilligan | x | | |
| Russell Godfrey | | x | |
| Emma Goodjohn | x | | |
| Ewan Goodjohn | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Stephen Haines | | x | |
| Howard Hamilton | | | |
| Sally Hanks | | | x |
| William Hennessy | | x | |
| Nic Hodges | | x | |
| Mark Hooper | | x | |
| Catherine Iannucci-Williams | x | | |
| Gwyn John | x | | |
| Dr. Ian Johnson | | x | |
| Susan Lloyd-Selby | x | | |
| Belinda Loveluck-Edwards | | | x |
| Julie Lynch-Wilson | x | | |
| Kevin Mahoney | x | | |
| Naomi Marshallsea | x | | |
| Michael Morgan | | | x |
| Jayne Norman | | | x |
| Helen Payne | x | | |
| Elliot Penn | x | | |
| Ian Perry | | x | |
| Joanna Protheroe | x | | |
| Ruba Sivagnanam | x | | |
| Carys Stallard | x | | |
| Neil Thomas | x | | |
| Steffan Wiliam | | x | |
| Margaret Wilkinson | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eddie Williams | x | | |
| Mark Wilson | x | | |
| Nicholas Wood | | x | |
| **CYFANSWM** | **24** | **20** | **4** |

Cytunwyd ar y bleidlais ac felly daeth y Gwelliant yn Gynnig o Sylwedd ac yna pleidleisiwyd arno fel yr isod:

| **Aelodau** | **Canys** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|---|
| Anne Asbrey | | x | |
| Julie Aviet | x | | |
| Gareth Ball | x | | |
| Bronwen Brooks | x | | |
| Gillian Bruce | | x | |
| Ian Buckley | x | | |
| Lis Burnett | x | | |
| Samantha Campbell | | | x |
| George Carroll | | x | |
| Christine Cave | | x | |
| Charles Champion | | x | |
| Janice Charles | | x | |
| Millie Collins | | x | |
| Marianne Cowpe | | x | |
| Pamela Drake | x | | |
| Anthony Ernest | | x | |
| Christopher Franks | | x | |
| Wendy Gilligan | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Russell Godfrey | | x | |
| Emma Goodjohn | | | |
| Ewan Goodjohn | x | | |
| Stephen Haines | | x | |
| Howard Hamilton | x | | |
| Sally Hanks | | | x |
| William Hennessy | | x | |
| Nic Hodges | | x | |
| Mark Hooper | | x | |
| Catherine Iannucci-Williams | x | | |
| Gwyn John | x | | |
| Dr. Ian Johnson | | x | |
| Susan Lloyd-Selby | x | | |
| Belinda Loveluck-Edwards | | | x |
| Julie Lynch-Wilson | x | | |
| Kevin Mahoney | x | | |
| Naomi Marshallsea | x | | |
| Michael Morgan | | | x |
| Jayne Norman | | | x |
| Helen Payne | x | | |
| Elliot Penn | x | | |
| Ian Perry | | x | |
| Joanna Protheroe | x | | |
| Ruba Sivagnanam | x | | |
| Carys Stallard | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Neil Thomas | x | | |
| Steffan Wiliam | | x | |
| Margaret Wilkinson | x | | |
| Eddie Williams | x | | |
| Mark Wilson | x | | |
| Nicholas Wood | | x | |
| **CYFANSWM** | **24** | **19** | **5** |

PENDERFYNWYD – Derbyn y Gwelliant.

Rheswm dros y penderfyniad

Yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod a phleidlais wedi'i chofnodi.

422 DIWYGIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR (SM / PGCD) –

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i ddiwygio'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad (CAL) yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y cytunwyd arno gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf, 2024 (Cofnod Rhif C75) fel y manylir arno ym mharagraffau 2.1 i 2.3 yr adroddiad, i ddisodli Rheolau Gweithdrefn Contractau Adran 18 fel y cyfeirir atynt ym mharagraffau 2.4 a 2.5 yr adroddiad ac i ddiwygio Adrannau 14.10 Swyddogaethau i beidio â bod yn gyfrifoldeb Cabinet/Pwyllgor Gweithredol yr Awdurdod, 14.16 (f) Cylch Gorchwyl Pwyllgor Trwyddedu Diogelu'r Cyhoedd a 26 o Ddirprwyaethau Swyddogion – Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai a Phennaeth Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, fel sydd wedi'u cynnwys ym mharagraffau 2.7 – 2.11 yr adroddiad hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll na allai gefnogi'r diwygiad i'r Polisi CAL.  Roedd wedi bod yn glir y dylid cynnal Pwyllgorau Craffu ar ffurf hybrid er mwyn galluogi pawb i gymryd rhan yn bersonol.

Dywedodd y Cynghorydd Haines fod y Polisi CAL yn golygu na allai Cynghorwyr fynychu yn bersonol yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd ac, yn ei farn ef, roedd hyn yn erydu'r broses ddemocrataidd.

Gwnaeth y Cynghorydd Wilson sylw ar nifer yr Aelodau a oedd wedi dewis cymryd rhan yn y cyfarfod o bell.

Dywedodd y Cynghorydd Ernest ei fod yn cytuno â'i gydweithwyr nad oedd gwadu hawliau Aelodau yn ddemocrataidd.

Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson nad oedd nifer o Aelodau a oedd yn gwneud ffwdan ynghylch cyfarfodydd hybrid yn bresennol yn y Siambr mewn gwirionedd.  Yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Gorffennaf eleni i droi Pwyllgorau Craffu yn ôl at fod yn gyfarfodydd anghysbell yn unig, a gafodd eu derbyn a'u gyrru ymlaen.  Fodd bynnag, roedd e’n credu y dylai Aelodau fod â hawl i ddod i gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac, yn ei farn ef, roedd cyfarfodydd yn well wedyn.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod y polisi CAL, yn ei barn hi, yn darparu ar gyfer cyfranogiad ehangach o bob cefndir a'i nod oedd bod yn fwy cynhwysol ac nid oedd yn atal hynny.

Roedd y Cynghorydd Godfrey o'r farn mai ei hawl ddemocrataidd ef ddylai fod yn bresennol mewn cyfarfod yn ffisegol, gyda'r Cynghorwyr Bruce a Haines yn datgan bod ganddynt reswm dilys pam nad oeddent yn bresennol yn y Siambr.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper ei fod wedi’r roi ar gofnod nad oedd e’n cymeradwyo cyfarfodydd cwbl o bell a bod archwiliad yn mynd i gael ei gynnal yn fuan o gadernid cyfarfodydd hybrid, ac y dylai pob Aelod fynegi eu barn.

Dywedodd y Cynghorydd Ewan Goodjohn y gallai Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu ddewis cael cyfarfod ar ffurf hybrid yn dilyn trafodaethau â'r Prif Weithredwr ac ailadroddodd i'r Blaid Geidwadol, pe baent yn ysu am ddod i gyfarfod wyneb yn wyneb, yna dylent ddod yn ffisegol.  Gellid craffu wyneb yn wyneb neu o bell.

Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd Mahoney yn cydnabod bod adegau pan oedd Aelodau, oherwydd salwch neu, er enghraifft, pe bai car yn torri i lawr, bod y cyfleuster o bell yn ddefnyddiol a dywedodd y Cynghorydd Perry fod cyfarfodydd o bell yn gweithio, ond yn aml roedd y dewis o gyfarfodydd hybrid hefyd yn bwysig, gan nodi nad oedd yn wir dweud nad oedd modd craffu’n briodol o bell.

Dywedodd y Cynghorydd Cowpe hefyd fod angen i'r Siambr fod yn addas at y diben, gan nodi nad oedd digon o le i'r holl Aelodau fod yn bresennol beth bynnag.

Dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd, y byddai’r cwestiwn a oedd cyfarfod i gael ei gynnal yn hybrid neu o bell bob amser yn rhan o'r drafodaeth ynghylch a oedd yn fater o ddiddordeb sirol er enghraifft, wrth iddi gynllunio agenda.  Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn bwysig nodi bod presenoldeb o bell yn cynyddu'r llais.

Roedd y Cynghorydd Wiliam o'r farn bod y cyfarfodydd o bell yn unig yn ymgais i rwystro craffu da a'i fod yn anghytuno â'r Cynghorydd Perry, gan ddweud ei fod yn credu bod craffu yn llawer mwy effeithiol o fod wyneb yn wyneb.

Dywedodd y Cynghorydd Burnett, i gloi, fod y diwygiadau i'r Polisi CAL eisoes wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet a bod y diwygiadau wedi’u rhoi gerbron y Cyngor i'w cynnwys yn y Cyfansoddiad.  Cynhaliwyd peilot ar gyfnod prawf o chwe mis ar gyfer cyfarfodydd hybrid ar gyfer pwyllgorau craffu gyda'r ystadegau'n dangos nad oedd llawer o Aelodau wedi bod yn bresennol yn y Siambr pan oedd y cyfarfodydd hynny'n cael eu cynnal.  Gan amlaf, dim ond tri neu ddau o bobl oedd wedi dod.  Daeth yr

Arweinydd i'r casgliad trwy ddweud y byddai hi hefyd yn hoffi diogelu ei hôl troed carbon.

Gofynnwyd am bleidlais a gofnodwyd fel yr isod, mewn perthynas â'r gwelliannau i'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad fel y nodir ym mharagraffau 2.1 a 2.2 yr adroddiad.

| **Aelodau** | **Canys** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|---|
| Anne Asbrey | | x | |
| Julie Aviet | x | | |
| Gareth Ball | x | | |
| Bronwen Brooks | x | | |
| Gillian Bruce | | x | |
| Ian Buckley | x | | |
| Lis Burnett | x | | |
| Samantha Campbell | | x | |
| George Carroll | | x | |
| Christine Cave | | x | |
| Charles Champion | | x | |
| Janice Charles | | x | |
| Millie Collins | | x | |
| Marianne Cowpe | | x | |
| Pamela Drake | x | | |
| Anthony Ernest | | x | |
| Christopher Franks | | x | |
| Wendy Gilligan | x | | |
| Russell Godfrey | | x | |
| Emma Goodjohn | x | | |
| Ewan Goodjohn | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Stephen Haines | | x | |
| Howard Hamilton | x | | |
| Sally Hanks | x | | |
| William Hennessy | | x | |
| Nic Hodges | | x | |
| Mark Hooper | | x | |
| Catherine Iannucci-Williams | x | | |
| Gwyn John | x | | |
| Dr. Ian Johnson | | x | |
| Susan Lloyd-Selby | x | | |
| Belinda Loveluck-Edwards | x | | |
| Julie Lynch-Wilson | x | | |
| Kevin Mahoney | | x | |
| Naomi Marshallsea | x | | |
| Michael Morgan | x | | |
| Jayne Norman | x | | |
| Helen Payne | x | | |
| Elliot Penn | x | | |
| Ian Perry | | | x |
| Joanna Protheroe | x | | |
| Ruba Sivagnanam | x | | |
| Carys Stallard | x | | |
| Neil Thomas | x | | |
| Steffan Wiliam | | x | |
| Margaret Wilkinson | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eddie Williams | x | | |
| Mark Wilson | x | | |
| Nicholas Wood | | x | |
| **CYFANSWM** | **28** | **20** | **1** |

Cytunwyd ar y bleidlais ac yna

PENDERFYNWYD –

(1) Cynnwys y gwelliannau i'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad fel y nodir ym mharagraffau 2.1 a 2.2 yr adroddiad yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

(2) Disodli Adran 18 o Reolau Gweithdrefn Gontractau y Cyfansoddiad gan Adran 18 wedi’i diwygio (Atodiad A wedi’i ddiwygio i'r adroddiad) fel y nodir ym mharagraff 2.5 yr adroddiad.

(3) Cymeradwyo gwelliannau i Adrannau 14.10 Swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb Cabinet / Gweithrediaeth yr Awdurdod, 14.16 (f) Cylch Gorchwyl Pwyllgor Trwyddedu Gwarchod y Cyhoedd ac Adran 26 Dirprwyaethau Swyddogion – Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai a Phennaeth Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, i'w cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y cynhwysir ym mharagraffau 2.7 i 2.11 o'r adroddiad.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Diweddaru'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad yn y Cyfansoddiad presennol fel y cytunwyd arno gan y Cabinet ar 18 Gorffennaf 2024.

(2) Ystyried y ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

(3) Diweddaru'r adrannau perthnasol gan ystyried gweithredu rhai rheoliadau erbyn diwedd mis Tachwedd 2024 o fewn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

423 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU CRAFFU 2023-2024 (CAC) –

Roedd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu wedi'i lunio yn unol ag Adran 7.4.4 Cyfansoddiad y Cyngor a oedd yn nodi bod "rhaid i Bwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Llawn am eu gwaith, gydag argymhellion ar gyfer eu rhaglenni gwaith yn y dyfodol a dulliau gweithio diwygiedig, os yw’n briodol".

Dywedodd Cadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu, wrth gyflwyno'r adroddiad, fod yr adroddiad yn manylu ar rôl Craffu a sut roedd gwaith Craffu’n cael ei wneud ym Mro Morgannwg a thynnwyd sylw at lwyddiannau allweddol o waith pob Pwyllgor Craffu, digwyddiadau pwysig yn ystod y blynyddoedd Bwrdeistrefol a gweithio yn y dyfodol, yn benodol mewn perthynas â chytundeb y

Cyngor y dylai gwaith craffu gael ei alinio'n agos â’r pedwar Canlyniad Lles yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2020-25, ac wedyn y pedwar Amcan Lles a oedd yn brif sail i Gynllun Corfforaethol newydd y Cyngor.

PENDERFYNWYD – Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2023/24.

Rheswm dros y penderfyniad

Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini fel sy’n ofynnol o dan Gyfansoddiad y Cyngor.

424 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036 STRATEGAETH A FFEFRIR ADRODDIAD YMGYNGHORI CYCHWYNNOL (CYF) –

425 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036 STRATEGAETH A FFEFRIR ADRODDIAD YMGYNGHORI CYCHWYNNOL – ADRODDIAD ATODOL (CL) –

**YSTYRIED EITEMAU 10 AC 11 GYDA'I GILYDD YN Y CYFARFOD.**

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol, wrth gyflwyno'r geirda gan y Cabinet ac adroddiad y Cyfarwyddwr Lleoedd, fod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl), fel mae’r Aelodau’n gwybod, yn ddogfen bolisi allweddol gan y Cyngor a oedd yn sail i lawer o strategaethau corfforaethol y Cyngor. Roedd ganddi sylfaen dystiolaeth gadarn a byddai'n dyrannu tir ar gyfer datblygu, yn dynodi ardaloedd i'w diogelu ac yn cynnwys polisïau a fyddai'n sail i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Byddai'r CDLlN yn cael ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni (CC) a oedd, fel byddai’r Cyngor yn cofio, yn amlinellu’r amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau.

Un o gamau allweddol y broses gynllunio oedd paratoi Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLlN. Roedd y Strategaeth a Ffefrir yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Mro Morgannwg dros gyfnod y CDLlN (2021 i 2036) ac yn nodi faint o dwf cynaliadwy yr oedd ei angen a lle byddai lleoliad bras y twf hwn. Roedd paratoi'r Strategaeth a Ffefrir wedi cael ei arwain gan fframwaith o fewnbynnau allweddol a oedd yn cynnwys deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol, polisïau a strategaethau lleol a rhanbarthol a sylfaen dystiolaeth a oedd yn ymwneud â materion lleol allweddol y dylai'r Cynllun geisio mynd i'r afael â nhw. Roedd yn darparu'r cyd-destun strategol ar gyfer y Cynllun Adneuo manwl.

Yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2023, roedd y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 10 wythnos (mae Cofnod 531 yn cyfeirio at hyn). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 6 Rhagfyr 2023 a 14 Chwefror 2024.

Ers ystyried Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol Strategaeth a Ffefrir y CDLlN gan y Cabinet ar 11 Gorffennaf, 2024 a Phwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd ar 16

Gorffennaf 2024, roedd swyddogion wedi dod yn ymwybodol nad oedd dau sylw e-bost a gyflwynwyd gan gynrychiolydd unigol wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol oherwydd problem TG.  Roedd y cynrychiolydd wedi dangos tystiolaeth y cafodd eu hanfon o fewn y cyfnod ymgynghori, a chytunwyd eu bod wedi'u cyflwyno’n briodol.  Roedd yr adroddiad atodol yn ystyried y cyflwyniadau hyn.

Ceisiodd yr Aelod Cabinet gymeradwyaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r Strategaeth a Ffefrir fel y nodwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol er mwyn galluogi’r swyddogion i symud ymlaen i baratoi'r CDLlN Adneuo yn unol â Chytundeb Cyflawni cymeradwy'r Cyngor.

Credai’r Cynghorydd Franks mai ychydig iawn o gefnogaeth oedd i ystyried barn preswylwyr.  Roedd yn deall y byddai preswylwyr yn gallu gwneud sylwadau ond bod teimlad pendant y byddai sylwadau yn cael eu diystyru.  Cyfeiriodd at Ogledd-orllewin Dinas Powys ac Eastbrook lle nid oedd gan y naill na'r llall wasanaethau bysus da yn ei dyb ef gyda phreswylwyr yn siomedig gyda'r diffyg ymgysylltu.

Dywedodd y Cynghorydd Haines ei fod yn cytuno â'r Cynghorydd Franks o ran a fyddai llais preswylwyr yn cael ei glywed gan nodi nad oedd barn preswylwyr Sain Tathan wedi’ cael ei hystyried, yn ei dyb ef.   Ie, roedd tai newydd yn cael eu hadeiladu yn yr ardal ond ble oedd y drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y tai hyn? Roedd yn poeni'n fawr am Sain Tathan o dan y CDLlN, gan nodi bod yr Adran Gynllunio wedi gwrthod mynd i'r ardal i siarad â phreswylwyr, er ei fod yn cydnabod bod yr Arweinydd wedi gwneud hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll y bu ganddo bryderon sylweddol ers amser maith am y Cynllun drafft gan ei fod yn teimlo bod gan y cynllun ddiffygion sylfaenol ac nad oedd yr Awdurdod yn rhoi sylw sylweddol i ymgynghori.  Dywedodd y byddai safleoedd yn Ninas Powys yn effeithio ar gymuned Llandochau ac nad oedd yn argyhoeddedig bod unrhyw bryderon yr oedd ef neu ei gymuned wedi’u mynegi wedi cael eu cynnwys.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper fod y Grŵp Ceidwadol wedi pleidleisio dros y CDLlN diwethaf, ond nawr roedden nhw’n newid eu barn.  Dywedodd y cafwyd trafodaeth dda yn y Pwyllgorau Craffu ond nad oedd e’n gallu cefnogi'r CDLlN presennol gan ystyried y pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Franks.

Dywedodd y Cynghorydd Wiliam ym Mhwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ym mis Gorffennaf ei fod wedi galw am ddarpariaeth gyfannol ac wedi ystyried nad oedd ôl ystyriaeth drylwyr ar y cynigion presennol.  Nid oedd yn fodlon bod pryderon ynglŷn â'r amgylchedd, trafnidiaeth ac iechyd wedi cael eu hystyried ac, yn ei farn ef, fod hwn yn gyfle mawr a gollwyd.

Dywedodd y Cynghorydd Perry fod ganddo ychydig o bryderon am ddiffyg posibl o ran lledaeniad daearyddol, gan nodi bod 857 o bobl wedi gwneud sylwadau, ond bod y rhan fwyaf o'r rheiny'n byw ger y safleoedd newydd.  Roedd hefyd yn meddwl tybed beth fyddai'r effaith ar yr ôl troed carbon ac amgylcheddol gyda'r nifer o gartrefi oedd yn cael eu cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson fod sawl safle mawr yn rhan o'r Cynllun ac yn arbennig mewn perthynas ag ardal y Glannau, bu nifer o broblemau yr oedd y cwmni datblygu wedi eu hwynebu dros y blynyddoedd. Gofynnodd a oedd y Cynllun yn mynd i gynorthwyo pobl ym Mro Morgannwg mewn gwirionedd a nododd y byddai'n croesawu sylwadau gan yr Arweinydd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet, mewn ymateb, wrth gyfeirio at yr hawliad nad oedd llais preswylwyr wedi'i glywed bod chwe atodiad i'r adroddiad yn dangos yr wybodaeth a dderbyniwyd. Roedd y broses i'w dilyn yn broses a fyddai'n llywio manylion cynllun y prosiect a byddai nifer o gyfleoedd i wrando ac ymgysylltu â phreswylwyr a chwaraewyr allweddol, er enghraifft Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru. Roedd pob un ohonynt yn rhannau pwysig o'r CDLl. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynllunio ar gyfer twf a oedd yn angenrheidiol ac fe wnaeth hi wahodd yr Aelodau i ddarllen yr adroddiad yn fwy trylwyr. Dywedodd fod cyfathrebu'n hanfodol ac roedd hi wedi codi hyn o fewn y timau i sicrhau bod preswylwyr yn cael gwybod am y broses ymgynghori. Roedd yr ymgynghoriad hwn hefyd ar gael ar gyfryngau cymdeithasol, ar Cymryd Rhan y Fro. Roedd ganddo gyrhaeddiad eang ac yn rhedeg am 10 wythnos a siaradwyd â'r holl bartneriaid. O ran trafnidiaeth yn Sain Tathan, byddai hyn yn cael ei adolygu ac roedd sgyrsiau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda'r gobaith y byddai gorsaf ar gael yno. Mae'r Strategaeth bellach yn nodi gweledigaeth, amcanion a pholisïau'r Cyngor a lles diwylliannol i Fro Morgannwg, gan ddarparu swyddi yn y Fro ac agweddau diwylliannol eraill. Yn dilyn hynny, cynigiodd yr Aelod Cabinet yr argymhellion a geir yn y cyfeiriad a'r adroddiad a gawsant eu heilio gan yr Arweinydd.

Cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar Eitemau 10 ac 11 fel isod:

| **Aelodau** | **Canys** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|---|
| Anne Asbrey | | x | |
| Julie Aviet | x | | |
| Gareth Ball | x | | |
| Bronwen Brooks | x | | |
| Gillian Bruce | | x | |
| Ian Buckley | x | | |
| Lis Burnett | x | | |
| Samantha Campbell | | x | |
| George Carroll | | x | |
| Christine Cave | | x | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Charles Champion | | x | |
| Janice Charles | | x | |
| Millie Collins | | | |
| Marianne Cowpe | | x | |
| Pamela Drake | x | | |
| Anthony Ernest | | x | |
| Christopher Franks | | x | |
| Wendy Gilligan | x | | |
| Russell Godfrey | | x | |
| Emma Goodjohn | x | | |
| Ewan Goodjohn | x | | |
| Stephen Haines | | x | |
| Howard Hamilton | x | | |
| Sally Hanks | x | | |
| William Hennessy | | x | |
| Nic Hodges | | x | |
| Mark Hooper | | x | |
| Catherine Iannucci-Williams | x | | |
| Gwyn John | x | | |
| Dr. Ian Johnson | | x | |
| Susan Lloyd-Selby | x | | |
| Belinda Loveluck-Edwards | x | | |
| Julie Lynch-Wilson | x | | |
| Kevin Mahoney | | x | |
| Naomi Marshallsea | x | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Michael Morgan | x | | |
| Jayne Norman | x | | |
| Helen Payne | x | | |
| Elliot Penn | x | | |
| Ian Perry | | x | |
| Joanna Protheroe | x | | |
| Ruba Sivagnanam | x | | |
| Carys Stallard | x | | |
| Neil Thomas | x | | |
| Steffan Wiliam | | x | |
| Margaret Wilkinson | x | | |
| Eddie Williams | x | | |
| Mark Wilson | x | | |
| Nicholas Wood | | x | |
| **TOTAL** | **28** | **20** | **0** |

Cytunwyd ar y bleidlais ac yna

PENDERFYNWYD –

(1) Cefnogi’r camau gweithredu yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol.

(2) Cymeradwyo Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) fel sail ar gyfer y gwaith parhaus o baratoi'r CDLlN ar Adnau.

(3) Cefnogi’r wybodaeth atodol a ddarperir yn yr adroddiad fel diweddariad i Eitem Agenda 10 ar Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol Strategaeth a Ffefrir Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) Bro Morgannwg 2021-2036.

(4) Rhoi awdurdod dirprwyedig i’r Cyfarwyddwr Lleoedd a’r Pennaeth Datblygu Cynaliadwy i wneud unrhyw ddiwygiadau teipograffig pellach neu fân newidiadau eraill i’r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys y cyfeiriad, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Caniatáu i swyddogion symud ymlaen gyda pharatoi'r CDLlN ar Adnau yn unol â Chytundeb Cyflawni cymeradwy'r Cyngor.

(3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Gwneud newidiadau teipograffig neu fân newidiadau yn ôl yr angen heb fod angen ceisio cymeradwyaeth y Cabinet neu'r Cyngor Llawn.

426 NEWID PWRPAS YR HEN GANOLFAN ALWADAU C1V YN GYFLEOEDD HAMDDEN NEWYDD MEWN PARTNERIAETH Â LEGACY LEISURE (CYF) –

PENDERFYNWYD – NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C111, 5 Medi, 2024 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

427 CWESTIYNAU YN UNOL AG ADRAN 4.19 O GYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau'r Aelodau fel y'u cynhwysir yn yr agenda:

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards**

A allai'r Aelod Cabinet roi ffigurau wedi'u diweddaru mewn perthynas â'r galw am Dai ym Mro Morgannwg, yn benodol:

- Aelwydydd sydd wedi'u cofrestru ar Homes4You;
- Aelwydydd sy'n ddigartref ac wedi'u rhoi mewn llety dros dro;
- Aelwydydd sy'n ddigartref ac wedi'u rhoi mewn gwestai/llety gwely a brecwast
- Teuluoedd digartref gyda phlant sydd ar hyn o bryd wedi'u rhoi mewn gwestai/llety gwely a brecwast
- Teuluoedd digartref gyda phlant sydd wedi'u rhoi mewn gwestai/llety gwely a brecwast dros y deuddeg mis diwethaf.

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid**

Dyma oedd y sefyllfa ar ddydd Llun 23 Medi:

- Ymgeiswyr wedi'u cofrestru ar Homes4U ------ 6,930

- Aelwydydd digartref wedi'u rhoi mewn llety dros dro ---- 204
- Aelwydydd digartref wedi'u rhoi mewn gwestai/llety gwely a brecwast ---- 71
- Teuluoedd digartref gyda phlant a oedd ar y pryd wedi'u rhoi mewn gwestai/llety gwely a brecwast ------ 4
- Teuluoedd digartref gyda phlant a oedd wedi'u rhoi mewn gwestai/llety gwely a brecwast dros y deuddeg mis diwethaf ------ 49

Ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd y Cyngor hwn yn haeddiannol falch o'r ffaith nad oedd unrhyw breswylwyr mewn llety dros dro a rhoddir clod i'r Dirprwy Arweinydd a oedd yn gyfrifol am hynny ar y pryd. Fodd bynnag, mae argyfwng tai yn y DU ar hyn o bryd sy'n cael ei achosi gan brinder difrifol o ran llety fforddiadwy, sy'n golygu bod y Cyngor hwn yn wynebu'r galw uchaf am dai ers blynyddoedd lawer.

(i) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles</u>**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei wneud i wella cyflwr Birdcage Walk?

**<u>Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau</u>**

Mae'r rhodfa a elwir yn Birdcage Walk, wedi bod ar gau ers peth amser i ddiogelu'r cyhoedd oherwydd diffygion ac ansefydlogrwydd posibl y wal gynnal sy'n ffurfio ffin orllewinol y rhodfa. Nid yw hwn yn achos syml gan ei bod yn ymddangos bod ansefydlogrwydd waliau cynnal yn atebolrwydd trydydd parti. Felly, gall unrhyw waith beryglu diogelwch defnyddwyr y llwybr ymhellach, sy'n sefyllfa yr ydym yn awyddus i'w hosgoi.

Rwy'n deall bod cau'r llwybr hwn yn gallu achosi anghyfleustra i gerddwyr, ond ni fydd yn ddiogel agor y llwybr nes bod y mater cymhleth hwn yn cael ei ddatrys ac unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol wedi'i gwblhau.

**<u>Atodol</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Charles pwy oedd y trydydd parti, a oeddent yn "llusgo eu sodlau" ac a oedd gan yr Aelod Cabinet unrhyw syniad pa mor hir y byddai'n ei gymryd i unioni pethau. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ymgynghori â swyddogion ac yn mynd yn ôl at y Cynghorydd Charles.

(iii) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper</u>**

Gwrandewais â diddordeb ar flaenoriaethau amlinellol Prif Weinidog Cymru ar gyfer ei Llywodraeth yn ddiweddar. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym am 'haf o wrando' a barodd iddi ailffocysu ymdrechion ei thîm.

Nid oedd cyfeiriad uniongyrchol at y materion sy'n effeithio ar gyllidebau'r Awdurdodau Lleol sydd dan bwysau sylweddol a chynyddol, fel rydym yn gwybod. A ddaeth unrhyw Aelodau o'n Cabinet o hyd i'r amser i gyflwyno sylwadau yn ystod taith yr haf?

**<u>Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a’r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau</u>**

Mae cyfathrebu rheolaidd a pharhaus bob amser wedi’i gynnal ac yn parhau i gael ei gynnal â’r Prif Weinidog a Chabinet Llywodraeth Cymru. Er y bu toriad yn ystod mis Awst, dim ond ar gyfer amserlen ffurfiol y Cyngor y mae hynny. Mae Cabinet y Cyngor wedi parhau i weithio trwy gydol y toriad. Bu nifer o gyfarfodydd yn ystod ac ers y toriad lle trafodwyd cyllid Llywodraeth Leol ar lefelau Cymru a'r DU.

**<u>Atodol</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Hooper pam nad oedd Eluned Morgan yn cyfeirio ar Lywodraeth Leol pan roddodd ei blaenoriaethau yn y Senedd a pham mae unrhyw gynrychiolaeth wedi bod yn aneffeithiol.

Er bod yr Arweinydd yn ystyried mai datganiad oedd y cwestiwn, ymatebodd fod Llywodraeth Leol yn uchel ar agenda'r Prif Weinidog, y byddai hi’n cael cyfarfod yn fuan ag Ysgrifennydd y Cabinet a bod mynediad agored gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac o'r herwydd nid oedd yn cydnabod y datganiad sy'n cael ei wneud.

(iv) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd H.M. Payne</u>**

Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gefnogi lles meddyliol a gwydnwch pobl ifanc ym Mro Morgannwg?

**<u>Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg</u>**

Un o gryfderau'r Awdurdod Lleol (ALl), fel y tystiwyd yn yr arolygiad llwyddiannus diweddar gan Estyn, yw datblygiad strategol darpariaeth addysgol a sgiliau ymarferwyr i gefnogi iechyd meddwl a gwydnwch plant a phobl ifanc. Gwnaed buddsoddiad sylweddol yn natblygiad y gweithlu i wella gwybodaeth, cymhwysedd a hyder ymarferwyr i gefnogi anghenion iechyd emosiynol, cymdeithasol a meddyliol dysgwyr. Mae gweithio cynhyrchiol gyda darparwr a gomisiynwyd i ddylanwadu ar gynllunio gwella ysgolion, ynghyd â phartneriaeth effeithiol iawn ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, CAMHS a'r gwasanaeth allgymorth ysgolion arbennig, wedi effeithio'n sylweddol ar ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae'r dull strategol, hirdymor a gymerwyd i gefnogi lles a mynd i'r afael â chymhlethdod cynyddol anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol dysgwyr wedi bod yn rhagorol. Mae'r strategaeth gymdeithasol, emosiynol, meddyliol a lles gyfredol yn ganlyniad i bum mlynedd o waith, ac er ei bod yn cydnabod bod mwy i’w wneud, mae'n ymateb i'r gofynion cynyddol a pharhaus hyn. Mae’r tîm yn cefnogi ysgolion i weithio o fewn fframwaith sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi’i lywio gan seicoleg, sy'n ymgorffori dealltwriaeth o Drawma Datblygiadol, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Ymlyniad a niwrowyddoniaeth iechyd meddwl ac afiechyd meddwl. Mae cyfranogiad rhagorol gan ysgolion yn y Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd Meddwl a Lles yn dangos bod bron pob un yn ymwneud â chynllunio gwella, ar ôl gwneud defnydd effeithiol o ystod o ddata a gwybodaeth ansoddol a meintiol i fynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc.

Mae darpariaeth y Cyngor yn cael ei gwella ymhellach gan Wasanaeth Ieuenctid rhagorol, a adlewyrchwyd yn arolygiad diweddar Estyn, sy'n cynnig ystod o weithgareddau effeithiol sy’n cael eu defnyddio’n helaeth i gefnogi iechyd meddwl a gwydnwch plant a phobl ifanc.

Yn ogystal â dwyn nifer o fuddion generig a fwriadwyd, mae'r strategaeth hefyd yn ymdrech ar y cyd i wella presenoldeb mewn ysgolion, mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus a lleihau gwaharddiadau lle bynnag y bo modd.  Yn hyrwyddo ac yn dylanwadu ar y gwaith o gyflawni’r strategaeth y mae grwpiau cyfeirio, megis y Bwrdd Gwella Lles, y Fforwm Lles Ysgolion a’r Grŵp Monitro Lles ac Iechyd Meddwl addysg ac iechyd ar y cyd.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Payne am y gwaith partneriaeth rhwng ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid gyda'r Arweinydd yn cynghori bod y gwasanaeth ieuenctid yn gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol ac maent hefyd wedi ei hysbysu o'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn gan ysgolion. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at yr ymadrodd o adroddiad Arolwg Estyn fod gan y gwasanaeth ieuenctid ethos o beidio â gadael yr un plentyn ar ôl.

(v) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.E.A. Champion**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am waith mae'r Awdurdod yn ei wneud fel rhan o adolygiad Llywodraeth Cymru i'w bolisi 20mya ar ffyrdd cyfyngedig?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Ym mis Gorffennaf 2024, gofynnwyd i bob Cyngor yng Nghymru gasglu adborth gan breswylwyr gyda'r bwriad o asesu hyn yn erbyn canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar osod terfynau cyflymder 30mya ar ffyrdd cyfyngedig a ffyrdd eraill â therfyn cyflymder 20mya.  Cyhoeddwyd y canllawiau diwygiedig hyn gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf.

Er mwyn hwyluso adborth, cafodd cyfeiriad e-bost penodol ei greu a’i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ers hynny mae'r Cyngor wedi derbyn tua 284 o e-byst gyda chais am adolygu dros 50 o ffyrdd neu rannau o'r ffordd ar 20mya a ffyrdd wedi’u heithrio ar draws rhwydwaith priffyrdd lleol y Fro.

Mae cyfnod gwrando Llywodraeth Cymru bellach wedi dod i ben a bydd Tîm Traffig y Cyngor nawr yn adolygu'r holl sylwadau rydym wedi'u derbyn ac yn eu hasesu yn erbyn y canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf. Wrth benderfynu a ddylai ffordd gael terfyn cyflymder uwch, rhaid i ni fod yn hollol sicr na fydd y fath gynnydd yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu tudalennau gwe'r Cyngor am 20mya i adlewyrchu'r camau nesaf fel yr eglurwyd uchod. Rwy'n rhagweld y bydd yn cymryd sawl mis i gwblhau'r adolygiad llawn o'r holl ffyrdd yn ôl y gofyn mewn modd trylwyr, ond ar ôl

ei gwblhau byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau ar ein gwefan. Ni fyddwn yn gallu rhoi adborth unigol i bob sylw a ddaeth i law.

Os yw'r canllawiau diwygiedig yn awgrymu bod ffordd yr ydym wedi derbyn adborth amdani yn addas ar gyfer terfyn cyflymder 30mya, byddwn yn egluro hyn pan fyddwn yn cyhoeddi canlyniadau'r adolygiad. Bydd unrhyw newidiadau i'r terfynau cyflymder presennol yn gofyn am Orchymyn Rheoli Traffig (GRhT) a fydd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyflwyno unrhyw newidiadau. Bydd unrhyw wrthwynebiadau i GRhT yn cael eu hystyried fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau arferol y Cyngor.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Champion a fyddai modd darparu ap i'r Aelodau yn manylu pryd roedd y gwaith wedi'i gwblhau.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y broses GRhT a oedd i'w chynnal, gan nodi y gallai unrhyw Aelod wneud sylwadau a/neu alw penderfyniad i mewn trwy gais.

(vi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.M. Cowpe**

Mae llawer o etholwyr wedi cwyno wrthyf am oedi cyn derbyn ymateb gan y Cyngor.

A allwch chi nodi polisi'r Cyngor am yr amser ymateb ar gyfer ateb e-byst, a'r amserau cyfartalog, a hiraf, ar gyfer ateb gan Ganolfan Gyswllt Un Fro trwy e-bost a dros y ffôn?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae'r Cyngor yn ceisio ymateb i e-byst o fewn 5 diwrnod gwaith. Nifer yr e-byst a broseswyd gan Ganolfan Gyswllt Un Fro rhwng mis Ebrill a mis Awst 2024 oedd 19,037, er y byddai llawer mwy o e-byst wedi cael eu prosesu trwy gyfrifon e-bost eraill sy'n wynebu'r cyhoedd dros yr un cyfnod. Yn anffodus, nid yw'n bosibl adrodd am amserau ymateb ar gyfer ymholiadau e-bost ar draws y Cyngor ar hyn o bryd.

Yn yr un cyfnod, cyfanswm nifer y galwadau ffôn yr ymdriniwyd â nhw gan Cyswllt Un Fro oedd 42,666 a'r oedi cyfartalog cyn ateb oedd 656 eiliad. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â pherfformiad 2023/24 lle cafodd 134,354 o alwadau eu hateb mewn 342 eiliad ar gyfartaledd ac mae'n adlewyrchu heriau adnoddau a brofir gan y gwasanaeth gyda lefelau uchel o absenoldeb salwch a throsiant staff. Gan fod absenoldeb salwch wedi cael ei reoli a'i wella, a staff trin galwadau newydd wedi'u recriwtio a'u hyfforddi, rhagwelir y bydd cyflymder ateb cyfartalog a'r oedi hiraf wrth ateb yn lleihau eto.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Cowpe a oedd unrhyw gynlluniau i fonitro'r sefyllfa.

Dywedodd yr Arweinydd y gellid monitro rhai meysydd er bod nifer o e-byst cymhleth na ellid eu hateb o bosibl yn y cyfnod ond roedd hi'n gobeithio y gellid anfon e-bost ateb dros dro o leiaf.

(vii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd P. Drake**

A wnaiff yr Arweinydd ymuno â mi i longyfarch Ysgol Gynradd Holton ar eu llwyddiant diweddar o fod yr ysgol gynradd gyntaf ym Mro Morgannwg i dderbyn statws 'Ysgol Noddfa'?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Yn wir mae'n bleser mawr nodi y gwnaeth Ysgol Gynradd Holton dderbyn statws 'Ysgol Noddfa' ddydd Gwener 20 Medi, y cyntaf o'i bath yn y Fro, ac rwy'n gwybod eich bod yn Llywodraethwr i'r Ysgol. Roeddwn yn falch iawn o ymuno â'r ysgol ar gyfer eu dathliad ar y cyd â'r Cynghorwyr Rhiannon Birch a Ruba Sivagnanam, yn ogystal ag AS newydd Bro Morgannwg, Kanishka Narayan. Mae hefyd yn werth cydnabod, a hynny gydag ymdeimlad o falchder, gryfder a dyfnder y fath arferion yn ysgolion y Fro gan fod llawer o rai eraill wrthi'n paratoi ar gyfer statws Ysgol Noddfa.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Drake i'r Arweinydd pa ysgolion eraill oedd wedi gwneud cais am y statws neu a oedd hefyd yn gwneud cais amdano.

Mewn ymateb dywedodd yr Arweinydd fod 22 o ysgolion eraill wrthi'n gweithio tuag ato ac Ysgol Sant Cyres oedd yr Ysgol Uwchradd gyntaf i ennill y statws ac Ysgol Gynradd San Helen yw'r 2il Ysgol Gynradd. Dywedodd yr Arweinydd hefyd ei bod wedi ymweld ag Ysgol Sant Cyres yn ddiweddar i glywed mwy am y Prosiect Gofalwyr Ifanc yr oeddent wedi'i gynnwys yn eu statws fel 'Ysgol Noddfa i bawb'.

(viii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd W.A. Hennessy**

Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i gynnal trafnidiaeth ysgol i blant ym Mro Morgannwg?

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Mae'r holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim, yn unol â Pholisi Trafnidiaeth Cartref i'r Ysgol/Coleg Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu dyrannu naill ai i wasanaethau trafnidiaeth ysgol prif ffrwd, gwasanaeth bws cyhoeddus, gwasanaeth trên neu wasanaeth trafnidiaeth anghenion dysgu ychwanegol.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy i'r Aelod Cabinet a fyddai'n gwneud datganiad na fyddai unrhyw blentyn yn cael ei adael heb drafnidiaeth ysgol fel y bu yng

Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd hi'n gweld perthnasedd yr atodiad i gwestiwn yr Aelod.

(ix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd A. Asbrey**

Gyda'r cynnydd yn nifer y rhai sy'n gweithio gartref a'r gostyngiad yn nifer y staff sy'n bresennol yn ffisegol, pa gynlluniau sydd gan Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer swyddfeydd ar draws y sir?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae'r Cyngor wedi bod yn adolygu ei swyddfeydd yn dilyn y newid i drefniadau gweithio mwy hybrid ar gyfer staff swyddfeydd.

Mae prosiect corfforaethol o'r enw Eich Lle (Your Space) wedi'i sefydlu ers peth amser. Adroddwyd am y diweddariad blynyddol i'r Cabinet mewn perthynas â'r camau gweithredu a'r targedau o'n Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar 18 Gorffennaf 2024.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Asbrey a oedd unrhyw ddata ynghylch faint o swyddogion oedd yn gweithio gartref ac am faint o oriau yr wythnos.

Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd fod pob math o ddata a oedd yn llywio Cynllun Rheoli'r Cyngor, gan nodi mai dim ond canran o staff oedd yn gymwys i weithio hybrid a chynghori'r Cynghorydd i edrych ar adroddiad y Cabinet ar 18 Gorffennaf, 2024 a ddylai ddarparu'r manylion angenrheidiol.

(x) **Cwestiwn gan y Cynghorydd S. Lloyd-Selby**

Pa gymorth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i bobl leol a theuluoedd sy'n parhau i brofi effaith yr argyfwng costau byw?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Diolch am y cwestiwn.

Mae'r Cyngor wedi bod yn cyflawni amrywiaeth o waith i gefnogi pobl a theuluoedd lleol sy'n parhau i brofi effaith yr argyfwng costau byw. Fe wnaethom adrodd am y gweithgaredd hwn yn fwyaf diweddar i'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ym mis Gorffennaf.

Yn benodol i gostau byw (yn hytrach na thlodi mewn ystyr ehangach), mae'r gwaith hwn yn rhychwantu pob un o feysydd gweithgarwch y Cyngor, gan gynnwys trwy ysgolion. Rydym wedi canolbwyntio sylw ar ansicrwydd bwyd, gan gefnogi pobl a allai fod yn unig neu'n dioddef o ynysigrwydd cymdeithasol, gan weithio gyda

phartneriaid ar ddarparu mannau cynnes a sicrhau mynediad i weithgareddau am ddim neu ar gost isel.

Bydd y Cynghorydd Lloyd-Selby yn gwybod bod y Cyngor wedi sefydlu cronfa costau byw i gefnogi'r gwaith hwn. Mae hyn wedi galluogi gwneud cyfraniadau at Fanc Bwyd y Fro, Cyngor ar Bopeth, taliadau tai dewisol ychwanegol, taliadau ychwanegol tuag at gyflwyno prydau ysgol am ddim yn gynnar a chronfa grant cymunedol.

Mae gennym adran benodol ar wefan y Cyngor sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd ac mae gwybodaeth yn cael ei rhannu â staff y Cyngor i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth i'w rhannu â phreswylwyr wrth iddynt ryngweithio â nhw.

Rydym wedi rhoi ffocws go iawn ar fynd i'r afael â thlodi yn y Cynllun Corfforaethol drafft sydd ar ddod y byddwn yn ymgynghori arno o 14 Hydref ac rydym yn edrych ymlaen at glywed meddyliau pawb arno. Mae hyn yn cynnwys adran benodol sy'n dangos y gwaith y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â thlodi.

**<u>Atodol</u>**

Fe wnaeth y Cynghorydd Lloyd-Selby, wrth gyfeirio at drafodaeth flaenorol yn y cyfarfod ynglŷn â chefnogi pobl i gael credydau pensiwn, ofyn i'r Arweinydd a oedd moddi rhannu mwy o fanylion am hyn â phob Aelod pan fyddai ar gael. Dywedodd yr Arweinydd y byddai hi wrth gwrs yn rhannu'r wybodaeth. Ar hyn o bryd roedd rhai materion GDPR a chyfreithiol i'w datrys, ond cyn gynted ag y byddai ganddi'r wybodaeth, byddai hi’n ei rhannu.

(xi) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll</u>**

A wnaiff yr Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am gynigion yr Awdurdod ar gyfer safle Ysgol Eagleswell yn Llanilltud Fawr?

**<u>Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a’r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau</u>**

Mae caniatâd cynllunio bellach wedi’i gymeradwyo ar gyfer tai dros dro ar y safle. Mae'r cytundeb hwn am uchafswm o 5 mlynedd. Yn unol â hynny, bydd dyfodol tymor hwy y safle yn cael ei ystyried maes o law dros y 18 mis nesaf gyda ffocws penodol ar atebion tai parhaol a'r posibilrwydd y gallai'r safle gael ei ddefnyddio fel rhan o ofynion tymor hwy y Bwrdd Iechyd. Mae'r elfen hon, sef darparu cyfleuster canolfan iechyd ar gyfer Llanilltud Fawr, yn ddyhead i ni ac rydym wedi trafod hyn – ac yn parhau i’w drafod – â'r Bwrdd Iechyd ar lefel uwch.

**<u>Atodol</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Carroll i'r Arweinydd beth oedd hi'n ei olygu wrth y term croesawu. Dywedodd yr Arweinydd fod pobl Llanilltud Fawr yn bobl gynnes a chroesawgar a oedd yn cefnogi'r rhai mewn angen ni waeth beth yw barn wahanol pobl.

(xii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Faint o unigolion a theuluoedd a adawodd lety dros dro yn 2023-24 heb sicrhau llety parhaol, a pha ganran oedd hon o'r cyfanswm mewn llety dros dro?

**Ateb gan yr Arweinydd ar ran yr Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid**

Gadawodd 69 o aelwydydd lety dros dro y llynedd heb i lety arall gael ei ddarparu neu ei sicrhau gan y Cyngor. Mae hyn yn cyfateb i 32% o'r holl ymgeiswyr a ystyriwyd o dan Adran 75 Deddf Tai 2004.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson a oedd gan yr Arweinydd fanylion i'w rhoi am yr hyn y gellid ei wneud i leihau'r niferoedd.

Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd fod yn rhaid derbyn bod gan rai o'r achosion anghenion cymhleth. Roedd y Cyngor hefyd yn bwriadu ehangu ei gyflenwad o lety dros dro ar draws Bro Morgannwg gyda'i fuddsoddiad mewn adnewyddu The Olives a Cadoxton House gyda'r llety modiwlar yn cael ei ddarparu yn Llanilltud Fawr ar gyfer Wcreiniaid fel y gallant newid o ddefnyddio gwestai a llety gwely a brecwast drud ac anaddas.

(xiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G. Bruce**

A wnaiff yr Aelod Cabinet amlinellu'r cymorth a roddir i blant sy'n cael eu gorfodi i symud i ysgol arall oherwydd bwlio, yn enwedig o ran eu darpariaeth trafnidiaeth ysgol?

**Ateb gan yr Arweinydd ar ran yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg**

Mae unrhyw honiadau o fwlio bob amser yn cael eu cymryd o ddifrif, ac mae ysgolion yn ymateb yn gyflym i gefnogi'r dioddefwr gymaint â phosibl yn unol â'u polisïau gwrth-fwlio. Ni fyddai unrhyw ddisgybl yn cael ei orfodi i symud o dan yr amgylchiadau hyn a dylai penderfyniad rhiant i symud ei blentyn gael ei wneud mewn cysylltiad â'r ysgol dan sylw a dylai bob amser fod y dewis olaf. Mae trafnidiaeth ysgol am ddim yn cael ei darparu yn yr achosion hyn os yw disgyblion yn bodloni'r meini prawf cymhwyso, a'i fod yn symudiad wedi'i reoli rhwng ysgolion neu'n cael ei gytuno gan yr Awdurdod Lleol.

Er mwyn sicrhau bod cymorth llawn ar gael, mae'r Tîm Derbyn yn hysbysu'r ysgol berthnasol a'r swyddogion mewnol ar unwaith pan dderbynnir ceisiadau am symud rhwng ysgolion sy'n nodi bwlio fel rheswm am hyn. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer ymyriad pan nad yw rhieni wedi codi'r mater gyda'r ysgol i ddechrau. Mae'r tîm yn darparu cyngor a chymorth i'r teulu ac yn cysylltu â'r ysgol bresennol fel y gallant geisio ymgysylltu â'r teulu i ddatrys y mater. Os bydd y symud yn digwydd, bydd yr ysgol newydd yn cael ei hysbysu'n llawn hefyd o'r amgylchiadau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rheoli'r trosglwyddiad yn briodol ac yn sensitif. Os nodir unrhyw

batrymau/tueddiadau o fewn ein hysgolion, bydd swyddogion arbenigol yn ymdrin â nhw.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Bruce, wrth gyfeirio at achos unigol, a fyddai'r Aelod Cabinet yn gweithio gyda'r teulu.

Gan fod y Cynghorydd Bruce yn cyfeirio at achos unigol, dywedodd yr Arweinydd y byddai'n amhriodol ei drafod yng nghyfarfod y Cyngor ac fe'i chynghorodd i godi'r mater gyda'r Adran Addysg a/neu'r Aelod Cabinet yn uniongyrchol.

(xiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R.E. Godfrey**

Gyda gweithio gartref yn cael ei annog yn frwd o fewn y Cyngor, pa ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud i sicrhau bod aelodau staff yn datblygu perthnasoedd gwaith ag aelodau eu hadran a hefyd pa ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud i sicrhau bod Rheolwyr ac Arweinwyr Tîm yn gallu monitro lefel gallu ac anghenion hyfforddi ychwanegol i aelodau staff?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mabwysiadodd y Cyngor bolisi gweithio hybrid ac mae hyn yn fframwaith i gefnogi staff a dyna sut mae'r sefydliad yn gweithio. Mae hyn yn ymdrin ag agweddau ar berfformiad a datblygiad ac fe'i cynhwysir yn y Strategaeth Pobl a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2023 yn dilyn proses o ymgynghori â staff ac undebau llafur a chraffu trwy'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Mae rheolwyr yn parhau i gael arfarniadau rheolaidd a phwyntiau cyffwrdd gyda staff trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn canolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r tîm, y gwasanaeth a'r Cyngor yn ceisio eu cyflawni a'r cymorth a'r datblygiad sydd eu hangen i alluogi hyn. Mae Caffi Dysgu'r Cyngor yn cynnig cyfres reolaidd o gyfleoedd datblygu'r holl staff, a bydd y rhaglen datblygu rheolwyr yn lansio ddechrau mis Hydref a fydd yn cynnwys pob rheolwr llinell ar draws y Cyngor.

**Atodol**

Holodd y Cynghorydd Godfrey a oedd unrhyw werthusiadau wedi cael eu cynnal gan adrannau o ran lefelau gwasanaeth cwsmeriaid a chynhyrchiant gyda gweithio gartref yn hytrach na gweithio yn y swyddfa.

Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn gweithio i amcanion a'r Cynllun Corfforaethol a bod arfarniadau gyda staff yn canolbwyntio ar Gynlluniau Tîm ac amcanion y Cyngor a lle nad yw amcanion cytunedig yn cael eu cyflawni, roedd ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r rhain.

(xv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd S.J. Haines**

Mae canran fawr o breswylwyr Sain Tathan yn destun treth ddwbl, oherwydd nad yw'r Cyngor yn mabwysiadu eu hystadau'n llawn. Mae'r rhain yn cynnwys preswylwyr Eglwys Brewis, Eastvale a'r tai a adeiladwyd ar gaeau St Johns, heb anghofio wrth gwrs yr ystâd sy'n cael ei hadeiladu rhwng Eastvale ac Eglwys Brewis – ydy'r Aelod Cabinet yn gallu rhoi llinell amser i mi ynghylch pryd y bydd yr holl wasanaethau hyn yn cael eu mabwysiadu?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Mae'r Fro bob amser yn annog datblygwyr i ymrwymo i gytundeb ffurfiol â'r Cyngor ar gyfer mabwysiadu ffyrdd lleol a mannau agored cyhoeddus sy'n cael eu creu rhan o safleoedd datblygu newydd yn ei ardal leol, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar gydweithrediad a chytundeb y Datblygwr unigol dan sylw. Ni fydd pob Datblygwyr safleoedd yn cynnig ffyrdd newydd neu fannau agored i'w mabwysiadu ac yn yr achosion hyn, mae cwmni rheoli wedi'i sefydlu i gynnal ffyrdd yr ystâd a dylid egluro hyn yn glir i brynwyr tai ar adeg gwerthu.

Adeiladwyd y datblygiadau yn Eglwys Brewis ac Eastvale (East Camp tybiedig) yn wreiddiol flynyddoedd lawer yn ôl gan ddatblygwyr ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) i gartrefu staff yr RAF a'u teuluoedd. Yn dilyn hynny, mabwysiadodd y Cyngor y rhan fwyaf o'r ffyrdd sy'n gysylltiedig â phob safle, ond cafodd gwahanol elfennau o droedffyrdd ac ardaloedd ymylol eu heithrio o'r broses fabwysiadu am ba reswm bynnag, ac yn hanesyddol maent wedi cael eu cynnal gan y Weinyddiaeth Amddiffyn nes bod y stoc dai a'r tir cysylltiedig yn cael eu trosglwyddo fel rhan o werthu'r stoc dai i berchnogion eiddo tiriog preifat mawr o'r enw "Annington".

Felly, cyfrifoldeb "Annington" neu unrhyw gwmni rheoli neu gwmni cydweithredol a allai fod ar waith i wneud hynny ar eu rhan yw cynnal a chadw elfennau'r ystadau sydd heb eu mabwysiadu a dylai preswylwyr fod wedi cael gwybod am unrhyw gostau cynnal a chadw cysylltiedig ar gyfer yr ardaloedd hyn wrth ymrwymo i gytundeb prydlesu/rhentu neu wrth brynu eiddo ar hyd y strydoedd yr effeithir arnynt. Mae'n ddrwg gennyf nad yw'n briodol i arian cyhoeddus gael ei wario ar eu gwaith cynnal a chadw neu eu hatgyweirio ar hyn o bryd a bydd angen codi'r elfennau heb eu mabwysiadu neu eu profi i safon mabwysiadu gan y cwmni rheoli presennol os ydynt yn dymuno i'r Cyngor ystyried unrhyw fabwysiadu'r llwybrau neu'r lleiniau ymyl hyn neu asedau eraill yn y dyfodol trwy gytundeb neu broses gyfreithiol addas.

Mae'r datblygiad newydd sy'n cynnwys Ffordd y Spitfire a'r ffyrdd cyfagos a elwid gynt yn ddatblygiad Northfields oddi ar y brif ffordd rhwng Sain Tathan a'r Bont-faen yn cael ei adeiladu gan Barratt David Wilson Homes oddi ar Heol Sain Tathan. Deëllir bod y datblygiad yn cael ei adeiladu mewn tri cham ar wahân ac rwy'n falch o gadarnhau bod gan y Cyngor gytundeb Adran 38 wedi'i lofnodi ar waith ar hyn o bryd (fel yr eglurir uchod) gyda'r Datblygwyr ar gyfer mabwysiadu'r cynllun priffyrdd mewnol ar gyfer Cam 1. Rhagwelir y bydd cytundebau cyfreithiol tebyg Adran 38 yn dilyn maes o law ar gyfer Camau 2 a 3. Mae trafodaethau'n parhau â'r Datblygwr ynghylch Cam 1 i sicrhau bod cynllun y ffordd yn cael ei lunio i'r safonau priodol a chytunedig sy'n ofynnol gan gytundeb Adran 38 cyn i'r mabwysiadu ffurfiol ddigwydd

ar adeg addas yn y dyfodol.  Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod Cam 2 a 3 wedi dechrau ac yn amodol ar gytundebau cyfreithiol gyda'r Datblygwr. Bydd y broses fabwysiadu’n mynd rhagddi wrth i'r datblygiad gael ei gwblhau, unwaith eto yn amodol ar gyflawni safonau priffyrdd priodol.  Fel Aelod Cabinet, mae'r cynnig yno i unrhyw Aelod gysylltu â mi os yw’n teimlo bod ganddo/ganddi leoedd i’w hystyried nad ydynt wedi’u mabwysiadu.

**<u>Atodol</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Haines a fyddai'r Aelod Cabinet yn hapus i weithio gydag ef a'r cwmnïau rheoli i fabwysiadu'r palmentydd a'r mannau gwyrdd.  Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ymgynghori â swyddogion.